

Ysgrifennwch eich enw yma

Cyfenw

Enwau eraill

**Dyfarniad**  
**Cyntaf BTEC**  
**Lefel 1/Lefel 2**  
**Pearson**

Rhif y Ganolfan

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif Cofrestru'r Dysgwr

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

# Celf a Dylunio

## Uned 2: Prosiect Creadigol mewn Celf a Dylunio

**Deunydd Asesu Enghreifftiol**

**Amser: Datblygu portffolio o astudiaethau**

**cefnogol: 20 awr**

**Gwrthrych/au terfynol: 10 awr**

Cyfeirnod y Papur

**554407**

**Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.**

Cyfanswm  
Marciau

### Cyfarwyddiadau i ganolfannau

- Rhaid darllen y papur hwn ar y cyd â'r wybodaeth yn y fanyleb am gynnal y dasg wedi'i hasesu'n allanol.
- Mae'r papur hwn yn dasg enghreifftiol er gwybodaeth i'r athro/athrawes.
- Dylid rhoi'r papur hwn i'r athro-aseswr er gwybodaeth gyfrinachol CYN GYNTED AG Y BO'N CYRRAEDD y ganolfan er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu portffolios y dysgwyr ar gyfer y briff.
- Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Pearson yn [www.BTEC.co.uk/2012](http://www.BTEC.co.uk/2012)
- Caiff canolfannau ddyfeisio eu cyfnod astudio paratoadol eu hunain cyn y cyfnod 10 awr ar gyfer cynhyrchu'r gwrthrych/au terfynol.
- 30 yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Cewch roi'r papur hwn i'r dysgwyr cyn gynted ag y bo'n cyrraedd, yn ôl dewis y ganolfan.

S46301A

©2014 Pearson Education Ltd.

1/2/



Trowch y dudalen ►

**PEARSON**

## Gwybodaeth i Ddysgwyr

**Dylech ddarllen y wybodaeth hon cyn dechrau ar y briff ar gyfer eich llwybr dewisol. Dylech gyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn wrth i chi gwblhau'r gwaith ar gyfer yr uned hon.**

- Darllenwch y briff a meddyliwch beth yw'r broblem greadigol mae angen ei datrys. Ysgrifennwch hyn i lawr.
- Gwnewch ymchwil i'r hyn mae'r cleient yn disgwyl i chi ei wneud ar gyfer y briff. Sut gallwch chi gyflawni'r disgwyliad hwn?
- Gwnewch ymchwil i ffynonellau i roi ysbrydoliaeth. Gall ffynonellau cynradd gynnwys edrych ar y pethau o'ch cwmpas chi, ymweliadau maes (*field visits*), amgueddfeydd, theatrau, orielau, ffeiriau masnach (*trade fairs*), digwyddiadau, cerddoriaeth, dawns, chwaraeon, cyfweiliadau; gall ffynonellau eilaidd gynnwys llyfrau, atgynhyrchiadau o waith pobl eraill. Gall rhai ffynonellau, fel gwefannau, erthyglau papur newydd, ffilmiau, teledu, neu ffrwyth eich dychymyg (*imaginings*) eich hun fod yn ffynonellau cynradd neu eilaidd, yn dibynnu ar eich llwybr arbenigol.
- Ymchwiliwch i faterion byd-eang, amgylcheddol, ecolegol, diwylliannol a chymdeithasol a all fod yn gysylltiedig â'r thema.
- Chwiliwch am waith artistiaid neu ddylunwyr o'ch cwmpas chi sy'n cysylltu â'ch syniadau eich hun, ac ymchwiliwch iddynt. Mae rhestr o adnoddau argymelledig i'w chael yn yr adran adnoddau.
- Datblygwch syniadau e.e. trwy frasluniau, lluniadu, peintio, ffotograffiaeth, delweddu cyfrifiadurol, dalennau dylunio, cynigion (*tryouts*), arbrofion a thrwy arbrofi ag elfennau gweledol, cyfryngau, defnyddiau, technoleg a phrosesau.
- Cadwch nodiadau o'ch cynnydd, meddyliau, syniadau, prosesau gwaith ac unrhyw newidiadau wrth i chi fynd yn eich blaen, naill ai yn eich llyfr braslunio, ar ddalennau datblygu neu ar ffurf arall.
- Adolygwch eich cynnydd ac ailwerthuswch y syniadau, defnyddiau, prosesau a thechnegau rydych chi wedi'u dewis.
- Cynlluniwch ar gyfer y 10 awr terfynol a'r gwerthusiad terfynol, gan ddangos y newidiadau mae eich gwaith wedi bod trwyddynt.

Bydd eich athro/athrawes yn gallu'ch helpu wrth i chi baratoi'ch ymateb personol i'r briff.

### **Datblygu portffolio o astudiaethau cefnogol**

Gallwch ddechrau gweithio ar y briff hwn cyn gynted ag y cewch y papur hwn. Dylech ddatblygu eich portffolio o waith mewn ffordd bersonol a chreadigol.

Mae 20 awr o amser gweithio gennych chi i baratoi ar gyfer eich gwrthrych terfynol. Mae'r 20 awr hyn yn gallu cael eu hymestyn dros nifer o wythnosau neu fisoedd. Yn ystod yr amser hwn, dylech fod yn cynhyrchu astudiaethau cefnogol, gan ymchwilio, datblygu, mireinio a chofnodi eich syniadau tuag at y gwrthrych/au terfynol.

Hefyd, bydd angen i chi gynllunio sut byddwch chi'n defnyddio'r 10 awr terfynol. Bydd hyn yn cynnwys siarad â'ch athro/athrawes ymlaen llaw am y defnyddiau bydd eu hangen arnoch.

Cyn i'r cyfnod 10 awr terfynol ddechrau, bydd angen i chi wybod yn glir pa ddefnyddiau fydd ar gael, faint o le fydd gennych chi a'r math o waith byddwch chi'n gallu ei wneud.



## Gwrthrych/au terfynol

Bydd eich athro/athrawes yn dweud wrthy ch chi pryd gallwch chi gwblhau eich gwaith heb gymorth ar gyfer yr uned hon.

- Mae gennych chi **10 awr** i gynhyrchu eich gwrthrych/au terfynol, gan ddefnyddio'r elfennau gweledol, defnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi'u dewis. Mae manylion y gwrthrychau disgwylidig yn cael eu rhoi ym mriffiau'r llwybrau ar y tudalennau sy'n dilyn.
- Byddwch chi'n gweithio o dan amodau arholiad dan oruchwyliaeth, fel arfer yn eich ystafell celf a dylunio.
- Dylech ddefnyddio eich astudiaethau cefnogol i'ch helpu chi.

Yn ystod y 10 awr terfynol:

- **bydd** eich goruchwyliwr yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth dechnegol i chi yn gysylltiedig â'r defnyddiau, technegau a phrosesau, e.e. paratoi darnau ceramig i'w tanio (*firing*), defnyddio cemegau yn yr ystafell dywyll, ymestyn cynfas, defnyddio peiriant gwnïo a pheiriant gorffennu
- **ni fydd** eich goruchwyliwr yn gallu siarad â chi am eich syniadau creadigol.

**Mae themâu a briffiau ynghyd â disgwyliadau'r cleient wedi'u cynnwys ar y tudalennau canlynol. Rhaid i chi ddewis UN o'r rhain er mwyn cwblhau eich gwaith ar gyfer yr uned hon.**



## Celf a Dylunio



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: Fotolia)

Cewch ddewis unrhyw agweddau ar friffiau'r llwybrau sydd wedi'u rhoi. Byddai'n synhwyrol canolbwyntio ar lwybr rydych chi wedi ei fwynhau ac wedi dysgu amdano yn ystod eich cwrs celf a dylunio. Dylech siarad â'ch athro/athrawes cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ar eich dewis.



## Llwybrau

### Crefftau Dylunio



(Ffynhonnell: D. Harper)



(Ffynhonnell: Fotolia)



(Ffynhonnell: D. Harper)

Y thema ar gyfer Crefftau Dylunio yw **'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'**. Mae'r thema hon yn gallu cael ei defnyddio i ddatblygu syniadau ar draws yr amrywiaeth o arteffactau Crefftau Dylunio. Gallwch edrych ar arteffactau o ddiwylliannau eraill o gwmpas y byd a sut mae'r dylanwadau hyn wedi cael eu defnyddio i greu syniadau newydd a darnau cyfoes. Dylech dalu sylw arbennig i liw, llinell, gwead, golau, graddfa, siâp, addurn arwyneb, silwét, patrwm a sut gallant gael eu haddasu i **'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu yn waith i'r Cyngor Prydeinig (*British Council*), sy'n comisiynu gwaith ar gyfer arddangosfa o'r enw 'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'. Mae'n chwilio am amrywiaeth gyffrous o waith, o ddarnau ar raddfa fach i gynigion llawer mwy o faint.

Mae'r Cyngor Prydeinig yn chwilio am rywun i gynhyrchu gwaith ar gyfer un o'r prosiectau canlynol.

1. Dyluniwch arteffact addurnol ar gyfer yr arddangosfa. Gallai hwn fod yn eitem bersonol ar raddfa fach, e.e. bathodyn, cofrodd (*souvenir*), darn i'r corff (neclis, breichled) neu ddarn mwy o faint at ddefnydd cymunedol (*communal*), e.e. murlun, llestri bwrdd, baner, sgriniau.
2. Dyluniwch y gofod ar gyfer arddangosfa'r Cyngor Prydeinig, gan ganolbwyntio ar ei olwg a'i deimlad. Er enghraifft, dyluniadau ar gyfer y cyntedd, stondinau arddangos, ardaloedd cod lliwiau neu ardaloedd lluniaeth (*refreshment*).
3. Dyluniwch ddarn coffaol (*commemorative*) o gerameg neu emwaith i'w werthu yn yr arddangosfa. Byddai angen i'r arteffactau hyn gael eu masgynhyrchu (*mass-produced*), felly mae angen i chi ystyried sut byddai eich dyluniadau yn defnyddio defnyddiau, prosesau a phecynnu (*packaging*) wrth eu cynhyrchu.

### Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw'r syniadau sydd wrth wraidd y gwaith?
- Pwy fyddai'n cael ei ddenu ato?
- A fyddai'r gwaith yn apelio i unrhyw gynulleidfa?
- Pa ddefnyddiau byddai'r gwaith yn cael ei wneud ohonynt?
- Beth yw'r maint neu'r fformat gorau?
- Faint byddai'n costio?




## Ffasiwn a Thecstilau



(Ffynhonnell: Fotolia)



(Ffynhonnell: Fotolia)



(Ffynhonnell: Fotolia)

Y thema ar gyfer Ffasiwn a Thecstilau yw **'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'**. Mae hyn yn gallu cael ei archwilio mewn sawl ffordd wahanol, trwy ymchwilio i amrywiaeth eang o ffasiwn, tecstilau a dylanwadau eraill. Dylech edrych yn benodol ar sut mae delweddau'n gallu cael eu trin (*manipulated*) i roi ysbrydoliaeth ar gyfer naill ai dillad neu decstilau. Dylech dalu sylw arbennig i liw, llinell, gwead, golau, cysgod, siâp, addurn arwyneb, silwét, patrwm, ailadroddiadau, cyfansoddiad a sut gallant gael eu haddasu i **'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Ar gyfer un o'r prosiectau canlynol bydd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

1. Rydych chi'n ddylunydd llawrydd (*freelance*) sy'n datblygu samplau ar gyfer dilledyn neu gyfwisg (*accessory*) a fydd yn rhan o gasgliad newydd o'r enw 'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin' ac a fydd yn cael ei werthu mewn cadwyn fawr o siopau stryd fawr.
2. Rydych chi'n grefftwr sy'n datblygu samplau ar gyfer darn crog tecstil (*textile hanging*) neu ddyluniad ffabrig unigryw i'w roi mewn arddangosfa yn y ganolfan gelfyddydau leol ar y thema 'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin'.
3. Gofynnwyd i chi osod thema a steilio sesiwn ffotograffau ffasiwn (*fashion shoot*), gyda'r teitl 'Y Dwyrain yn Cwrdd â'r Gorllewin' ar gyfer rhifyn lansio cylchgrawn newydd ar gyfer pobl ifanc 14-18 oed. Dylai eich syniadau allu cael eu haddasu fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio ar wefan y cylchgrawn yn ogystal ag yn y copi wedi'i argraffu.

### Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- I bwy mae'r cynnyrch?
- Pam byddai'r cwsmer eisiau'r cynnyrch?
- Faint byddai'r cwsmer yn barod i dalu amdano?
- Faint byddai'n costio?
- Pa ddefnyddiau bydd y cynnyrch yn cael ei wneud ohonynt?
- Beth yw'r maint gorau ar ei gyfer?
- Pa mor wydn (*durable*) mae angen iddo fod?
- I bwy rydych chi'n marchnata eich dyluniad, a yw ar gyfer cadwyn fawr o siopau stryd fawr neu siop neu oriel fach?





## Ffotograffiaeth



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: 123RF)

Y thema ar gyfer Ffotograffiaeth yw **'A i Z'**. Mae hyn yn ymwneud â phob math o daith mae pobl yn ei gwneud, ar gyfer gwaith ac ar gyfer pleser. Mae hefyd yn ymwneud â chlundiant. Dylech edrych yn benodol ar sut gall delweddau gael eu trin i roi ysbrydoliaeth ar gyfer eich gwaith. Dylech dalu sylw penodol i oleuo, dilyniant, cyferbyniadau, arwyneb, graddfa, llinell, cyfansoddiad, patrwm, lleoliad a'r amser o'r dydd, a sut gall yr elfennau hyn gael eu defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael â thema **'A i Z'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Ar gyfer un o'r prosiectau canlynol bydd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

Bydd angen i chi gynhyrchu cyfres o bedair delwedd o leiaf ar gyfer un o'r dibenion canlynol.

1. Mae grŵp amgylcheddol eisiau hyrwyddo ymgyrch feicio a cherdded leol yn eich ardal leol, o'r enw 'Mynd o A i Z', fel rhan o ddatblygu ffordd iach o fyw. Maen nhw eisiau delweddau sy'n addas ar gyfer poster neu dudalen gartref ar eu gwefan.
2. Mae ar gyfnodolyn teithio (*travel journal*) arbenigol angen delweddau ffotograffig ar gyfer arddangosfa ffotograffig fydd yn teithio'n genedlaethol, o'r enw 'Mynd o A i Z', sy'n canolbwyntio ar daith ddiddorol. Rhaid i bob delwedd fod yr un faint a dim mwy nag A4.
3. Mae ar gylchgrawn teithio arbenigol angen delweddau ffotograffig i ddarlunio (*illustrate*) materion trafniadaeth lleol ar gyfer erthygl o'r enw 'A i Z'. Bydd y delweddau'n cael eu defnyddio ar dudalen deitl yr erthygl a thros ddwy dudalen arall.

### Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Beth yw diben y delweddau?
- Pam byddai cwsmeriaid y cleient yn cael eu denu gan y delweddau?
- Sut rydych chi wedi ystyried y costau?
- Beth yw'r maint neu'r fformat gorau ar gyfer y diben rydych chi wedi'i ddewis?



## Dylunio Cynnyrch



(Ffynhonnell: Fotolia)



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: Fotolia)

Y thema ar gyfer y prosiect Dylunio Cynnyrch yw **'Cyfaill y Daith'**.

Mae pobl yn yr 21ain ganrif yn symud o gwmpas, maen nhw'n teithio yn y car, ar drên, mewn bws, ar y môr ac yn yr awyr. Mae llawer o bobl hefyd yn hoffi beicio neu gerdded, naill ai i le astudio neu i'r gwaith, neu er pleser. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi i'w teithiau fod yn hawdd a chyfforddus, felly mae marchnad ar gael bob amser ar gyfer cynhyrchion sy'n gallu cael eu cludo o gwmpas wrth deithio ac a fydd yn gwella'r profiad, er enghraifft i gadw pobl yn ddiogel, yn sych, ar y ffordd gywir neu eu diddanu. Mae gwneuthurwyr a dylunwyr yn poeni mwyfwy bod yn rhaid i gynhyrchion allu cael eu hailgylchu neu eu bod yn defnyddio defnyddiau cynaliadwy ac eco-gyfeillgar. Dylech dalu sylw penodol i liw, llinell, gwedd, dilyniant, golau, cysgod, siâp, addurn arwyneb, silwét, patrwm, cyfansoddiad a sut gallant gael eu haddasu i **'Cyfaill y Daith'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Ar gyfer un o'r prosiectau canlynol bydd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

1. Mae siop gadwyn fawr, sy'n arbenigo ar gyflenwadau i deithwyr, yn chwilio am ddyluniadau newydd i'w cyflwyno. Maen nhw eisiau syniadau am gynnyrch, o'r enw 'Cyfaill y Daith', fydd yn amddiffyn neu'n helpu beiciwr neu gerddwr ar daith hir mewn tywydd gwael fel glaw, eira, llwch (*dust*), gwynt, tywyllwch. Er enghraifft, gallai eich cynnyrch fod yn fag arbenigol, eitem o ddillad, cysgod, bocs i gadw bwyd yn oer, cynhwysydd bwyd, ap i ddyfais symudol neu ganllaw teithio (*travel guide*).
2. Mae gwneuthurwr, sy'n arbenigo ar gofrodion (*souvenirs*) a gemau, yn chwilio am gynhyrchion newydd i'w cyflwyno i'r farchnad. Mae eisiau i chi gynhyrchu eitem gyda'r teitl 'Cyfaill y Daith' fydd yn diddanu plant neu bobl ifanc ar daith ar y môr, yn yr awyr neu ar y tir; neu sy'n eu hatgoffa o daith maen nhw wedi'i mwynhau. Er enghraifft, gallai eich eitem fod yn gêm, pos, dyfais ddysgu, dyfais adloniant, cit adeiladu, *Geocache* (fel arfer, mae hyn yn flwch cudd o wrthrychau, sy'n cael ei ddarganfod trwy *GPS*), tegau neu gofrod.
3. Mae cadwyn allfeydd adwerthu (*retail outlets chain*), sydd â'i brif fusnes mewn meysydd awyr a gorsafoedd trên, yn chwilio am syniadau ar gyfer cynhyrchion newydd ar thema 'Cyfaill y Daith'. Diben y casgliad yw gwneud teithiwr yn gyfforddus, er enghraifft sedd, cynhalydd ar ffurf clustog (*cushioning support*), gorffwys i'r pen, a dylai fod yn hawdd ei gludo.





## Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- I bwy mae'r cynnyrch?
- Pam byddai'r cwsmer eisiau'r cynnyrch?
- Faint byddai'r cwsmer yn barod i dalu amdano?
- Faint byddai'n costio?
- Pa ddefnyddiau bydd y cynnyrch yn cael ei wneud ohonynt?
- Beth yw'r maint gorau ar ei gyfer?
- Pa mor wydn (*durable*) y mae angen iddo fod?



## Celfyddydau Gweledol



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: D. Harper)



(Ffynhonnell: Fotolia)

Y thema ar gyfer Celfyddydau Gweledol yw **'Taith Bersonol'** fydd yn caniatáu am hunan-ddatblygu annibynnol trwy ddulliau gweithio penodol dewisol a defnyddio defnyddiau, technegau a phrosesau meddwl. Mae pob artist cain yn mynd ar daith wrth iddynt ymlwybro drwy eu gwaith; gall y teithiau hyn fod yn deithiau o drawsffurfio, adnabod, cyfnerthu neu hyd yn oed dychwelyd i'w gwreiddiau creadigol (*a creative homecoming*). Dylech dalu sylw arbennig i liw, llinell, gwead, dilyniant, golau, cysgod, siâp, addurn arwyneb, silwét, patrwm, ailadroddiadau, cyfansoddiad a sut gallant gael eu haddasu i **'Taith Bersonol'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Ar gyfer un o'r prosiectau canlynol bydd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

1. Rhaid i chi gynhyrchu darn o waith i'w gynnwys mewn arddangosfa grŵp rydych chi'n ei chynnal fel cydweithfa (*collective*) artistiaid. Yr enw ar yr arddangosfa yw 'Taith Bersonol' a bydd yn cael ei chynnal mewn oriel 'naid' (*pop-up*) dros dro mewn canol tref leol. Bydd angen i chi ystyried sut bydd eich gwaith yn rhyngweithio ag eraill. Gall y gwaith fod yn ddelwedd, yn gyfres o ddelweddau neu'n gerflun nad yw'n defnyddio mwy nag un metr sgwâr o le.
2. Mae BAA yn cynnal cystadleuaeth i gael darn ar gyfer arddangosfa barhaol, o'r enw 'Taith Bersonol' i'w osod y tu mewn neu'r tu allan i adeilad newydd Terfynfa 5 ym Maes Awyr Heathrow. Ni all y darn tu mewn fod yn fwy na 2 x 4 x 5 metr, ac ni all y darn tu allan fod yn fwy na 5 x 8 x 15 metr. Bydd angen i'ch dyluniadau adlewyrchu'r gofyniad hwn.
3. Mae oriel sydd wedi hen sefydlu yn chwilio am gyflwyniadau ar gyfer cyfres o ddelweddau, i'w dangos ar ffurf printiau neu ar sgrin, ar y thema 'Taith Bersonol'. Ni ddylai fod mwy nag wyth delwedd a dylai eu maint fod rhwng A5 ac A3.

### Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw'r syniadau wrth wraidd y gwaith?
- Pwy fyddai'n cael ei ddenu ato?
- A fyddai'r gwaith yn apelio at unrhyw gynulleidfa?
- Pa ddefnyddiau byddai'r gwaith yn cael ei wneud ohonynt?
- Beth yw'r maint neu'r fformat gorau?
- Faint byddai'n costio?



## Cyfathrebu Gweledol



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: 123RF)



(Ffynhonnell: 123RF)

Y thema ar gyfer Cyfathrebu Gweledol yw **'Darganfod eich Byd'**. Gall hwn gael ei archwilio mewn llawer o ffyrdd gwahanol trwy ymchwilio i amrywiaeth eang o ddylanwadau sy'n gysylltiedig â graffeg teithio. Dylech edrych yn benodol ar ddelweddau o wahanol ddiwylliannau'r byd a hefyd ar y ddelweddaeth weledol sy'n cael ei defnyddio'n gyffredinol, er enghraifft arwyddion a symbolau mewn terfynfeydd teithio, ar ffyrdd ac mewn manau cyhoeddus. Dylech dalu sylw penodol i liw, llinell, gwead, dilyniant, golau, cysgod, siâp, addurn arwyneb, silwét, patrwm, ailadroddiadau, cyfansoddiad a sut gall y rhain gael eu haddasu i **'Darganfod eich Byd'**.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Ar gyfer un o'r prosiectau canlynol bydd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

1. Mae cwmni teithio newydd, o'r enw 'Darganfod eich Byd' yn cychwyn ymgyrch hysbysebu i ailfrandio ei ddelwedd. Dyluniwch y graffigwaith ar gyfer dynodiad sianel (*channel ident*) (nad yw'n hirach na 10 eiliad), neu ap i ddyfais symudol, neu wefan enghrefftiol ar gyfer y cwmni.
2. Mae cwmni hedfan newydd sy'n gwerthu teithiau pell am brisiau rhad, gyda'r llinell hysbysebu (*strapline*) 'Darganfod eich Byd', yn anelu at bobl o dan 25 oed. Maen nhw eisiau i chi greu dyluniadau ar gyfer arwyddion, ar gyfer logos neu ar gyfer pecynnu (*packaging*). Gallai'r rhain gynnwys dyluniadau ar gyfer cwt yr awyren (*tailfin*) neu frandio arall i'r cwmni hedfan.
3. Mae cwmni teithio eisiau hyrwyddo'r gwyliau antur maen nhw'n eu cynnig, o dan y thema 'Darganfod eich Byd'. Maen nhw eisiau i chi gynhyrchu dyluniadau printiedig nad ydynt yn fwy nag un ochr A3 neu ddwy ochr A4.

### Disgwyliadau'r cleient

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Mae gan y cleient ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- I bwy mae'r dyluniad?
- Pam byddai'r cwsmer yn cael ei ddenu ato?
- Faint byddai'n costio?
- Pa ddefnyddiau bydd y dyluniad yn cael ei wneud ohonynt?
- Beth yw'r maint neu'r fformat gorau?



S 4 6 3 0 1 A 0 1 1 1 5

## Adnoddau

Mae'r gwefannau a'r llyfrau yn gywir adeg cyhoeddi'r papur, ond gallent newid.

### Gwefannau

<a href="http://www.actionscript.org">www.actionscript.org</a>	Adnoddau ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol
<a href="http://www.adobe.com">www.adobe.com</a>	Meddalwedd <i>Adobe</i>
<a href="http://www.apple.com">www.apple.com</a>	Meddalwedd <i>Apple</i>
<a href="http://www.artatwalsall.org.uk">www.artatwalsall.org.uk</a>	<i>The New Art Gallery Walsall</i>
<a href="http://www.artchive.com">www.artchive.com</a>	Archif celf
<a href="http://www.atlasgallery.com">www.atlasgallery.com</a>	<i>Atlas Gallery</i>
<a href="http://www.baa.com">www.baa.com</a>	Gwefan Meysydd Awyr <i>BAA</i>
<a href="http://www.bima.co.uk">www.bima.co.uk</a>	<i>British Interactive Media Association</i>
<a href="http://www.bjp-online.com">www.bjp-online.com</a> (ar gael hefyd ar ffurf cyfnodolyn)	<i>The British Journal of Photography</i>
<a href="http://www.britishcouncil.org">www.britishcouncil.org</a>	Corff cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol y DU
<a href="http://www.british-museum.ac.uk">www.british-museum.ac.uk</a>	<i>The British Museum</i>
<a href="http://www.craftscouncil.org.uk">www.craftscouncil.org.uk</a>	<i>Crafts Council</i>
<a href="http://www.designmuseum.org.uk">www.designmuseum.org.uk</a>	<i>Design Museum</i>
<a href="http://www.fashionlive.com">www.fashionlive.com</a>	Gwybodaeth am dueddiadau a dylunwyr
<a href="http://www.fashion.net">www.fashion.net</a>	Gwybodaeth am ffasiwn o bob cwr o'r byd
<a href="http://www.fashiontrendsetter.com">www.fashiontrendsetter.com</a>	Rhagweld lliwiau a thueddiadau
<a href="http://www.flickr.com">www.flickr.com</a>	Rhannu delweddau ar-lein
<a href="http://www.guggenheim.org">www.guggenheim.org</a>	<i>Guggenheim Museum</i>
<a href="http://www.hyperstudio.com">www.hyperstudio.com</a>	Offer creu ar gyfer dysgu trwy brosiect
<a href="http://www.metmuseum.org">www.metmuseum.org</a>	<i>The Metropolitan Museum of Art</i>
<a href="http://www.moma.org">www.moma.org</a>	<i>The Museum of Modern Art</i>
<a href="http://www.myshutterspace.com">www.myshutterspace.com</a>	Rhwydwaith cymdeithasol i ffotograffwyr digidol
<a href="http://www.nationalgallery.org.uk">www.nationalgallery.org.uk</a>	<i>National Gallery</i>
<a href="http://www.national-geographic-magazine.co.uk">www.national-geographic-magazine.co.uk</a>	Cylchgrawn y <i>National Geographic</i> (mae ganddo sianel deledu hefyd)
<a href="http://www.newbritishartists.co.uk">www.newbritishartists.co.uk</a>	<i>New British Artists</i>
<a href="http://www.nma.co.uk">www.nma.co.uk</a>	<i>New Media Age</i>



<a href="http://www.nmpft.org.uk">www.nmpft.org.uk</a>	<i>National Museum of Photography, Film and Television</i>
<a href="http://www.npg.org.uk">www.npg.org.uk</a>	<i>National Portrait Gallery</i>
<a href="http://www.photography.com">www.photography.com</a>	Adnoddau i ffotograffwyr
<a href="http://www.photography.nationalgeographic.com">www.photography.nationalgeographic.com</a>	Ffotograffiaeth cylchgrawn y <i>National Geographic</i>
<a href="http://www.photonet.org.uk">www.photonet.org.uk</a>	Oriel ffotograffwyr
<a href="http://www.popphoto.com">www.popphoto.com</a>	Adnoddau i ffotograffwyr
<a href="http://www.royalacademy.org.uk">www.royalacademy.org.uk</a>	<i>Royal Academy</i>
<a href="http://www.tate.org.uk">www.tate.org.uk</a>	Y <i>Tate</i> ar-lein
<a href="http://www.textilearts.net">www.textilearts.net</a>	Gwybodaeth am artistiaid a dylunwyr tecstilau
<a href="http://www.thelowry.com">www.thelowry.com</a>	<i>The Lowry Museum and Gallery</i>
<a href="http://www.vam.ac.uk">www.vam.ac.uk</a>	<i>Victoria and Albert Museum</i>
<a href="http://www.vogue.co.uk">www.vogue.co.uk</a>	Cylchgrawn <i>Vogue</i> ar-lein
<a href="http://www.webstyleguide.com">www.webstyleguide.com</a>	Adnoddau ar gyfer dylunio gwefannau



S 4 6 3 0 1 A 0 1 3 1 5



## Llyfrau

*Adobe Photoshop CS5 Classroom in a Book* (Adobe, 2010) ISBN: 9780321701763

Arato R – *Design It! The Ordinary Things We Use Every Day and the Not-So-Ordinary Ways They Came to Be* (Tundra Books, 2010) ISBN: 9780887768460

Attwood J – *Edexcel GCSE Design and Technology Graphic Products Student Book* (Edexcel, 2010) ISBN: 9781846907548

Barnard M – *Fashion as Communication* (Routledge, 2002) ISBN: 9780415111587

Berger J – *Ways of Seeing* (Penguin Books/BBC, 2008) ISBN: 9780141035796

Britt D – *Modern Art Impressionism to Post Modernism* (Thames & Hudson, 2007) ISBN: 9780500238417

Chapman N and Chapman J – *Digital Media Tools 4ydd Argraffiad Diwygiedig* (Macavon Media, 2012) ISBN: 9780956737007

Child J – *Studio Photography: Essential Skills* (Focal Press, 2008) ISBN: 9780240520964

Clement R – *Four French Symbolists* (Greenwood Press, 1996) ISBN: 9780313297526

Cole G and Dixon A – *Lightweight Backpacking & Camping: A Field Guide to Wilderness Hiking Equipment, Technique & Style* (Beartooth Mountain Press, 2005) ISBN: 9780974818825

Collings M – *This is Modern Art* (Phoenix, 2000) ISBN: 9781841881003

Cycling Resources Library – *100 Years of Bicycle Component and Accessory Design* (Van Der Plas Publications, US, 1999) ISBN: 9781892495013

Davies A and Fennessy P – *Digital Imaging for Photographers* Pedwerydd Argraffiad (Focal Press, 2002) ISBN: 978240515908

De Bono E – *Serious Creativity: Using the Power of Lateral Thinking to Create New Ideas* (HarperCollins, 2005) ISBN: 9781861976741

De Olivera N, Oxley N and Milhae P – *Installation in the New Millennium* (Thames & Hudson, 2004) ISBN: 9780500284513

Eastland J – *Essential Darkroom Techniques* (Cassell, 1995) ISBN: 9780304345489

Eastoe J – *Britain By Bike* (Batsford, 2010) ISBN: 9781906388713

Elsom-Cook M – *Principles of Interactive Media* (McGraw-Hill Publishing Co, 2001) ISBN: 9780077096106

Finkelstein E – *How to Do Everything with Microsoft Office PowerPoint 2007* (McGraw-Hill Osbourne, 2007) ISBN: 9780072263393

Fletcher A – *The Art of Looking Sideways* (Phaidon Press Ltd, 2001) ISBN: 9780714834498

Forte P L and Muller F – *Louis Vuitton: 100 Legendary Trunks: The History of the Travel Trunk* (Harry N Abrams Inc, 2010) ISBN: 9780810982475

Freeman M – *The Photographer's Eye: Composition and Design for Better Digital Photos* (Focal Press, 2007) ISBN: 9780240809342

Galer M – *Photography Foundations for Art and Design* (Focal Press, 2007) ISBN: 9780240520506

Garrand T – *Writing for Multimedia and the Web: A Practical Guide to Content Development for Interactive Media* (Focal Press, 2006) ISBN: 9780240808222



Hannah B – *Becoming a Product Designer: A Guide to Careers in Design* (John Wiley & Sons, 2004) ISBN: 9780471223535

Hopkins D – *After Modern Art 1945-2000* (Oxford University Press, 2000) ISBN: 9780192842343

Hopkins D – *Dada and Surrealism* (Oxford University Press, 2004) ISBN: 9780192802545

Hughes R – *The Shock of the New: Art and the Century of Change, Revised Edition* (Thames & Hudson Ltd, 1992) ISBN: 9780070311275

Ingledeu J – *Photography (Portfolio Series)* (Laurence King, 2005) ISBN: 9781856694322

Jewitt J – *Taunton's Complete Illustrated Guide to Box Making (Complete Illustrated Guide Series)* (Taunton Press Inc, 2004) ISBN: 9781561585939

Kerman P – *Sams' Teach Yourself Macromedia Flash 8 in 24 Hours* (Sams, 2005) ISBN: 9780672327544

Kristian G and Schlempp-Ülker N – *Visualising Ideas* (Thames & Hudson, 2006) ISBN: 9780500286128

Lambert B – *Edexcel GCSE Design and Technology Resistant Materials Student Book* (Edexcel, 2010) ISBN: 9781846907555

Langford M – *The Story of Photography* (Focal Press, 1998) ISBN: 9780240514833

Little S – *Isms: Understanding Art* (A&C Black Publishers Ltd, 2004) ISBN: 9780713670110

Macleod K – *Thinking Through Art: Reflections on art as research* (Routledge, 2005) ISBN: 9780415364782

Marais J – *Hiking: The Essential Guide to Equipment and Techniques* (New Holland Publishers Ltd, 2009) ISBN: 9781847733429

Marien-Warner M – *Photography: A Cultural History* (Laurence King, 2006) ISBN: 9781856694933

McAlhone B and Stuart D – *A Smile in the Mind* (Phaidon, 1998) ISBN: 9780714833286

McWilliam J – *Travel Games: Fun and Games on the Go!* [Gyda deis mini a byrddau chwarae magnetig a darnau chwarae magnetig] (Tangerine Press, 2007) ISBN: 9780439903516

Misa T J – *Leonardo to the Internet: Technology and Culture from the Renaissance to the Present* (The Johns Hopkins University Press, 2011) ISBN: 9781421401546

Noe C et al – *Young Chinese Artists: The Next Generation* (Prestel, 2008) ISBN: 9783791341088

Peterson B – *Learning to See Creatively, Argraffiad Diwygiedig* (Amphoto Books, 2003) ISBN: 9780817441814

Poli F – *Post-Modern Art 1945 – 2008* (Collins Design, 2008) ISBN: 9780061665776

Tilke M – *Costume Patterns and Designs* (Zwemmer) (DS: Cyhoeddwyd y llyfr hwn ym 1956 ac mae'n cynnwys dros 200 plât lliw wedi'u lluniadu a'u lliwio â llaw, o astudiaethau pobl o deithiau Tilke o gwmpas y byd. Dyma'r llyfr awdurdodol ar wisgoedd ethnig o hyd.) ISBN: 9780847812097

Tinsman B – *The Game Inventor's Guidebook: How to Invent and Sell Board Games, Card Games, Role-Playing Games & Everything in Between!* (Morgan James Publishing, 2008) ISBN: 9781600374470

Weynand D – *Apple Pro Training Series; Final Cut Pro 7* (Peachpit Press, 2009) ISBN: 9780321635273

Zakia R D – *Photographic Composition: A Visual Guide* (Focal Press, 2010) ISBN: 9780240815077

**Diwedd y papur**



S 4 6 3 0 1 A 0 1 5 1 5